Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

# Adroddiad Arolygu

**Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol Craig y Don**

**Y Caban**
**Ysgol Craig y Don**
**Clarence Drive**
**Craig y Don**
**LL30 1TR**



## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

14/9/2022

**Comment [GI1]:** NOTE TO CLIENT:

According to the school's website Ysgol Craig y Don is located on Clarence Drive not Clarence Road (as stated on the original document)

Ysgol Craig y Don

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***
*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Gofal y Tu Allan i Oriau Ysgol Craig y Don

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal dydd plant<br>Gofal y tu allan i Oriau Ysgol |
| Darparwr cofrestredig | Chasebell Ltd. |
| Lleoedd cofrestredig | 26 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad diwethaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru | 4 Gorffennaf 2018 |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Nac ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ddefnyddio'r gwasanaeth. |

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Digonol** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Digonol** |

Am fwy o wybodaeth am sgoriau, gweler diwedd yr adroddiad hwn.

## Crynodeb

Mae'r plant yn hapus ac wedi ymgartrefu yn y clwb y tu allan i oriau ysgol hwn. Maent yn ffurfio cydberthnasau cadarnhaol â'i gilydd ac â'r staff, sy'n eu helpu i deimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r plant yn gwneud dewisiadau ynglŷn â sut maent yn treulio eu hamser a gallant ddewis, yn ystod pob sesiwn, p'un a ydynt yn chwarae dan do neu yn yr awyr agored. Yn ystod gwyliau ysgol maent yn mwynhau ymweld â mannau o ddiddordeb iddynt.

Mae’r staff yn fodelau rôl da ac yn rhyngweithio'n dda â'r rhai sy'n mynychu'r clwb. Maent yn garedig, yn ymatebol ac yn ofalgar. Maent yn cynllunio ystod ddiddorol o weithgareddau ac yn annog y plant i ddilyn eu diddordebau eu hunain. Mae polisïau a gweithdrefnau digonol ar waith i sicrhau bod anghenion iechyd a llesiant unigol y plant yn cael eu diwallu.

Mae'r amgylchedd yn addas. Mae pob man yn lân ac yn daclus. Mae'r caban yn cael ei gynnal a'i gadw, ond nid yw'r rhai sy'n rhedeg y lleoliad bob amser yn sicrhau bod y gwiriadau diogelwch gofynnol yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac y cedwir tystiolaeth o'r gwiriadau hyn. Mae gan y plant fynediad at faes chwarae a chae chwarae mawr ac ystod o adnoddau chwarae awyr agored addas. Mae gan y caban ddodrefn ac adnoddau sy'n addas ar gyfer oedran a chyfnod datblygiad y plant.

Mae arweinyddiaeth a rheolaeth yn effeithiol ac yn canolbwyntio ar ganlyniadau da i’r plant. Mae trefniadau cadw cofnodion yn drefnus, ac mae'r staff yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda.

**Comment [LH2]:** Cysoni ☺

| **Llesiant** | **Da** |
|---|---|

Mae gan y plant lais ac maent yn cael eu hannog i chwarae. Gwrandewir arnynt a gallant ddilyn eu diddordebau eu hunain, ymuno ag eraill neu ymlacio yn ystod y sesiynau. Maent yn dewis gweithgareddau megis chwarae gyda setiau adeiladu, gwneud marciau, chwarae gemau cyfrifiadurol neu gemau tîm yn yr awyr agored.

Mae'r plant yn hapus iawn ac wedi ymgartrefu. Mae rhai yn mynychu o ysgolion eraill yn yr ardal ac wedi ymgartrefu'n dda. Gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn teimlo'n gyfforddus oherwydd eu bod yn adnabod y staff yn dda. Mae'r plant yn datblygu cyfeillgarwch â'u cyfoedion, ac ymlyniad da at y staff cyson sy'n gofalu amdanynt. Ystyrir eu hoff bethau a'u cas bethau, mae rhai plant yn dewis chwarae yn yr awyr agored trwy gydol y sesiwn, mae'n well gan eraill sgwrsio yn yr ardal deledu.

Mae'r plant yn rhyngweithio'n gadarnhaol â'i gilydd ac maent yn garedig at eraill. Maent yn rhannu gemau ac adnoddau yn dda ac yn gwybod sut i fynd at y staff os oes ganddynt unrhyw broblemau. Pan gafodd plentyn ei frifo'n ddamweiniol yn ystod gêm bêl-droed, roedd ei ffrindiau'n ymateb yn gyflym iawn, gan ddangos eu bod yn poeni trwy gysuro'r plentyn a denu sylw aelod o'r staff.

Mae'r plant yn mwynhau eu chwarae rhydd a'u gweithgareddau hamdden wedi'u trefnu. Maent yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt fel unigolion neu fel grŵp, ac, ar yr un pryd, yn datblygu'n emosiynol, yn gorfforol, yn gymdeithasol ac yn ddeallusol. Er enghraifft, eisteddodd rhai gyda ffrindiau i wylio'r teledu a sgwrsio, roedd eraill yn chwarae gemau addysgol a gemau cynhyrfus gyda'i gilydd ar gyfrifiadur. Mae'r plant yn mwynhau gweithgareddau crefft sy'n cael eu harwain gan oedolion i ddechrau ond sy'n arwain at y plant yn datblygu eu syniadau eu hunain. Mae'r plant yn elwa'n fawr ar sgwrsio â'r staff am yr hyn y maent yn ei wneud ac yn mwynhau gwneud hyn, ac yn gofyn am help os oes angen. Gwelsom blentyn yn canolbwyntio'n galed ac yn cael ei ganmol am ei ymdrech, wrth iddo dynnu lluniau â sialc ar y buarth gydag aelod o staff.

Mae'r plant yn cael llawer o gyfleoedd i gynyddu eu hyder a dod yn fwy annibynnol yn eu sgiliau chwarae a hunangymorth. Maent yn defnyddio'r adnoddau pan fydd eu hangen arnynt, yn defnyddio'r cyfleusterau toiled a'r basn golchi dwylo pan fo angen, yn eistedd wrth fyrddau i gael byrbryd pan fyddant yn sychedig neu'n llwglyd, ac yn helpu i glirio eu platiau. Mae'r plant wedi dysgu gosod eu heiddo mewn lle diogel a'u casglu pan fyddant yn barod i fynd adref.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae'r staff yn gwneud pob ymdrech i gadw'r plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn defnyddio polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad yn dda i sicrhau eu bod yn diwallu anghenion unigol ac yn cadw'r plant yn ddiogel. Roedd y cofrestrau'n dangos yn gyson bod nifer addas o staff yn goruchwylio plant. Mae'r staff yn deall diogelu yn llawn ac yn ymwybodol o bwy yw'r unigolyn diogelu arweiniol yn y lleoliad. Ymatebodd y staff y siaradwyd â nhw yn dda i gwestiynau am atgyfeiriadau a beth y dylid ei wneud pan fydd ganddynt bryderon am blentyn neu aelod o staff. Gwnaethom gadarnhau bod gan rai aelodau o staff dystysgrif Cymorth Cyntaf yn y Gwaith, ac mae gan bob aelod o staff dystysgrifau hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig. Mae angen diweddaru rhai ac mae hyn wedi'i drefnu nawr bod hyfforddiant wyneb yn wyneb wedi'i ailgyflwyno. Mae'r staff wedi nodi'r plant ag asthma, alergeddau a'r rhai ag anghenion mwy penodol ac mae ganddynt weithdrefnau ar waith i ddarparu cymorth. Maent yn dilyn gweithdrefnau i sicrhau nad yw'r plant yn defnyddio eu ffonau symudol nac yn cael mynediad heb oruchwyliaeth i'r rhyngrwyd tra yn y clwb. Mae'r staff yn llenwi ffurflenni damweiniau, digwyddiadau a meddyginiaeth yn foddhaol. Mae gan y lleoliad wobr pum seren am hylendid bwyd.

Mae'r staff yn garedig a gofalgar, gan ymateb i anghenion a dymuniadau'r plant yn brydlon. Maent yn helpu'r plant i ddod o hyd i adnoddau, yn ymuno â chwarae’r plant ac yn rhoi sicrwydd pan fo angen. Maent yn gyfarwydd â theuluoedd y plant a'u hysgol, sy'n eu galluogi i gael sgyrsiau mwy ystyrlon â'r plant a'u rhieni. Mae'r staff yn fodelau rôl da; maent yn gwrtais ac yn canmol y plant, er enghraifft, wrth chwarae gyda'i gilydd yn braf a helpu eraill. Rheolir ymddygiad yn arbennig o dda. Teimlai rhai rhieni a ddarparodd arolygon adborth yn ystod yr arolygiad mai dim ond weithiau roedd y 'Cynnig Rhagweithiol' yn cael ei hyrwyddo o fewn y gwasanaeth. Clywsom rywfaint o Gymraeg yn cael ei defnyddio a gwnaethom siarad yn Gymraeg â phlentyn am ei amser yn y lleoliad a’r daith o’i ysgol.

Mae'r staff yn hyrwyddo datblygiad y plant ac yn diwallu eu hanghenion unigol yn dda. Maent yn gweithio mewn partneriaeth â rhieni i fonitro cynnydd a datblygiad y plant, gan siarad â nhw os oes ganddynt unrhyw bryderon. Darperir adborth ar chwarae a rhyngweithio'r plant, gyda'r ffocws ar ryngweithio cymdeithasol a phrofiadau'r plant yn y clwb. Mae'r staff yn caniatáu i'r plant ddilyn eu diddordebau eu hunain a chymryd rhan mewn gweithgareddau hamdden. Mae'r staff yn wybodus ac yn deall egwyddorion gwaith chwarae. Maent yn galluogi'r plant i fentro’n ofalus yn eu chwarae, er enghraifft, wrth ddefnyddio cestyll neidio a phyllau padlo yn ystod yr haf ac yn deall sut mae gweithgareddau o’r fath o fudd i’r plant.

## Yr Amgylchedd — Digonol

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn ymdrechu i sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac yn saff a bod unrhyw risgiau diangen i blant yn cael eu nodi a'u lleihau. Mae'r caban wedi ei leoli ar fuarth yr ysgol. Mae ffensys perimedr uchel a gatiau yn amgylchynu tir yr ysgol ac yn cyfyngu mynediad. Fodd bynnag, gan fod angen i rieni gael mynediad at y maes chwarae i gasglu'r plant, nid yw'r rhain ar glo yn ystod sesiynau. Mae'r staff yn lleihau'r risg i'r plant trwy eu goruchwylio pan fyddant yn yr awyr agored. Mae gan y caban glo 'digid' ar waith sy'n sicrhau nad yw mynediad heb awdurdod yn bosibl os yw'r drws ar gau. Mae'r staff yn rhoi ystyriaeth ofalus i beryglon a diogelwch o fewn yr amgylchedd, mae'r holl weithgareddau peryglus, a gwibdeithiau i fannau o ddiddordeb, yn cael eu cynnwys mewn asesiadau risg blynyddol yn ogystal â'u cofnodi fel asesiadau risg dyddiol yn y dyddiadur dyddiol. Roedd ymarferion tân wedi'u cynnal yn rheolaidd ac yn cael eu cofnodi. Mae angen adolygu asesiad risg tân y lleoliad a cheisio cyngor gan y swyddog tân lleol i sicrhau bod y deunyddiau a ddefnyddir i orchuddio'r waliau a'r nenfydau yn addas. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu. Fodd bynnag, dyroddwyd hysbysiad gweithredu â blaenoriaeth mewn perthynas â sicrhau bod yr arweinwyr yn cael tystysgrif prawf diogelwch trydanol sy'n ofynnol bob pum mlynedd ar gyfer y safle.

Mae'r amgylchedd yn addas i'w ddefnyddio ac mae'r arweinwyr yn monitro ei gyflwr a'i waith cynnal a chadw. Soniodd y staff fod y caban yn edrych wedi treulio ac roeddent yn y broses o newid gorchuddion finyl y waliau i loywi'r ystafell. Mae arddangosfeydd wal yn dathlu peth o waith y plant ac yn rhoi ymdeimlad o berchnogaeth a pherthyn, mae arddangosfeydd eraill yn llawn gwybodaeth ac yn cael eu defnyddio'n benodol i loywi'r ystafell. Mae gan yr adeilad gyfleusterau toiled a golchi dwylo addas a glân, ardal gegin a desg derbynfa / ardal swyddfa yn agos at y drws. Mae'r maes chwarae yn yr awyr agored yn addas a chanddo ddigon o le.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau bod ansawdd yr adnoddau a'r offer yn dda. Maent yn darparu adnoddau addas, priodol i'w hoedran o dan do sy'n hygyrch, gan eu bod yn cael eu storio'n briodol mewn unedau storio lefel isel. Mae dodrefn addas, ac offer megis byrddau a chadeiriau ar gyfer gweithgareddau a bwyta byrbrydau, ardal ymlacio a mannau gweithgaredd cyfforddus. Mae adnoddau awyr agored yn cael eu storio mewn sied. Dywedwyd wrthym y gall y plant nôl pethau drostynt eu hunain, ond mae'r staff yn tueddu i osod eu hoff eitemau allan ar ddechrau'r sesiwn. Fodd bynnag, gellid sicrhau bod adnoddau mwy addas, sy'n briodol i'w hoedran, ar gael i'r plant yn yr awyr agored trwy ddatgloi siediau storio yn ystod y sesiynau. Yn ystod gwyliau ysgol, mae gan y plant fynediad at offer mwy fel cestyll neidio, pyllau padlo, beiciau, ac offer chwaraeon.

| Arweinyddiaeth a Rheolaeth | Digonol |
| --- | --- |

Mae arweinyddiaeth y lleoliad yn effeithiol ac yn bodloni disgwyliadau. Mae'r rheini sy'n rhedeg y lleoliad yn ymdrechu i fodloni gofynion rheoliadol a chadw at y safonau gofynnol cenedlaethol. Maent yn agored i awgrymiadau ac yn cymryd camau i fynd i'r afael â diffygion yn brydlon. Mae lefelau staffio'r clwb yn gyson ac yn sicrhau bod y lleoliad yn rhedeg yn esmwyth. Mae ganddynt ddatganiad o ddiben addas a set briodol o bolisïau a gweithdrefnau y maent yn eu rhannu'n llwyddiannus â'r staff a'r rhieni.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad brosesau ar waith i fonitro ac adolygu ansawdd y gofal a ddarperir. Maent yn y broses o adolygu ansawdd eu gofal a chynhyrchu adroddiad ysgrifenedig cyn gynted â phosibl oherwydd ei fod yn hwyr. Yn dilyn y pandemig, roedd y bobl hynny sy'n rhedeg y lleoliad yn ei gwneud yn flaenoriaeth i’r staff fynychu hyfforddiant mewn 'Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod' cyn gwerthuso'r gwasanaeth a chroesawu adborth gan y staff, y plant a'r rhieni. Dywedodd rhai rhieni a ddychwelodd adborth yn ystod y broses arolygu eu bod yn hynod hapus ar y ffordd y mae'r lleoliad yn cael ei redeg ond y byddent yn croesawu mwy o gyfleoedd i roi adborth.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y clwb yn rheoli'r broses o recriwtio staff yn ddiogel a'u datblygiad proffesiynol parhaus yn dda iawn. Roedd y ffeiliau staff a archwiliwyd yn cynnwys yr holl ddogfennau gofynnol. Mae gan y tîm staff presennol gymwysterau a phrofiad da, ac mae'r rhan fwyaf wedi cwblhau diploma mewn gwaith chwarae. Mae bron pob un aelod o staff ar system ddiweddaru’r Gwasanaethau Datgelu a Gwahardd, sy’n dangos eu haddasrwydd i weithio gyda phlant. Roedd tystiolaeth hefyd fod yr unigolion cyfrifol yn cynnal gwerthusiad o'r rheolwr, sydd yn ei dro yn cynnal cyfarfodydd goruchwylio a sesiynau gwerthuso gyda'r holl aelodau eraill o staff. Nid oedd pob gwerthusiad blynyddol wedi’i gwblhau ar gyfer y cyfnod 2021 – 2022. Er nad oes angen gweithredu ar unwaith, mae hwn yn faes i'w wella ac rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu.

Mae’r partneriaethau a chyfathrebu â’r rhieni yn dda. Rhoddodd y rhieni adborth cadarnhaol iawn ar wefan cyfryngau cymdeithasol y lleoliad ac mewn arolygon adborth. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn cyfathrebu â’r rhieni pan fyddant yn casglu’r plant a thrwy raglenni negeseuon ar gyfer cyfathrebu mwy uniongyrchol. Maent yn hysbysu’r rhieni am lesiant eu plentyn ac am ddigwyddiadau pan fyddant yn digwydd. Maent yn sicrhau bod gan y rhieni fynediad at y polisïau a’r gweithdrefnau, ond gwnaethant ddweud nad yw gwefan y lleoliad yn cael ei defnyddio cymaint â’r wefan cyfryngau cymdeithasol, ond gall y rhieni gysylltu bob amser os oes angen rhywbeth arnynt.

**Argymhellion i fodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol**

A1 Sicrhau bod y plant yn cael mynediad at adnoddau sy'n briodol i'w hoedran, a nifer ac amrywiaeth addas o adnoddau wrth chwarae yn yr awyr agored.

A2 Sicrhau bod y rhieni a'r plant yn cael eu cynnwys mewn prosesau i werthuso ansawdd y gofal yn y lleoliad.

A3 Adolygu polisïau a gweithdrefnau'r lleoliadau mewn perthynas â hyrwyddo'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg drwy gyfeirio at Fframwaith Strategol 'Mwy Na Geiriau' 2016-2019 ar gyfer Gwasanaethau Cymraeg mewn Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Gofal Cymdeithasol.

| Crynodeb o'r Diffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae’r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae’n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio’r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 25 | Ni all yr unigolyn cyfrifol gadarnhau bod y cyflenwad trydan yn y caban yn ddiogel i'w ddefnyddio. Rhaid i'r unigolyn cyfrifol sicrhau bod prawf diogelwch pum mlynedd yn cael ei gynnal yn gyfnodol, a chadarnhau bod hyn wedi'i wneud drwy gyflwyno tystysgrif diogelwch i AGC. | Newydd |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y

gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 29 | Nid oedd gwerthusiadau blynyddol wedi'u cwblhau ar gyfer yr holl staff a gyflogir yn y lleoliad ar hyn o bryd. | Newydd |
| 16 | Roedd systemau ar waith i fonitro ac adolygu ansawdd y gofal yn y lleoliad hwn, ond roedd yr unigolion cyfrifol yn y broses o gwblhau eu Hadolygiad Ansawdd Gofal Blynyddol ond roedd hwn yn hwyr. | Newydd |

| Graddau | Yr hyn y mae'r graddau yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy’n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy’n arwain y sector. Mae’r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau ac sydd heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella’n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i’w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni’r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i’w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy’n effeithio’n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyrannu hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 27/10/2022